**Eitem Rhif    ar y Rhaglen**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **13eg Gorffennaf 2012** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Swyddog Monitro** |
| **Teitl:** | **Cydnabyddiaeth Ariannol Aelodau Annibynnol y Pwyllgor Safonau** |

---

## 1 DIBEN YR ADRODDIAD

1.1 Hysbysu'r Aelodau o argymhellion Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol fel y maent yn ymwneud ag Aelodau Annibynnol y Pwyllgor Safonau.

## 2 CEFNDIR

2.1 Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (y Panel) wedi cyhoeddi ei Adroddiad Blynyddol cyntaf. Mae'r adroddiad yn delio â chydnabyddiaeth ariannol aelodau etholedig awdurdodau lleol ar gyfer y flwyddyn 2012/13. Mae gofyn i'r Cyngor weithredu argymhellion y Panel dan Adran 153 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

2.2 Mae'r Panel wedi penderfynu defnyddio ei bwerau i bennu taliadau. Mae'r Panel wedi pennu bandiau cyflog ar gyfer aelodau etholedig y Cyngor.

2.3 Mae'r Panel hefyd wedi penderfynu bod angen i awdurdodau lleol, ar gyfer 2012/13, dalu'r ffioedd canlynol i aelodau cyfetholedig:

> Cadeirydd Cyfetholedig, Pwyllgor Safonau £256 ffi dyddiol (£128 am hanner diwrnod)
>
> Aelod cyffredin cyfetholedig i gynnwys y Pwyllgor Safonau £198 ffi dyddiol (£99 am hanner diwrnod)

2.4 Mae'r taliadau wedi eu capio ar swm uchaf sy'n cyfateb i ddeg diwrnod llawn y flwyddyn ar gyfer pob pwyllgor y mae unigolyn wedi ei gyfethol iddo. Mae'r taliadau ar gyfer amser y cyfarfod yn unig, ac yn cynnwys amser a dreulir ar baratoi a theithio. Diffinnir cyfarfod hanner diwrnod fel hyd at bedair awr a diffinnir cyfarfod diwrnod cyfan fel mwy na phedair awr.

2.5 Mae'r Panel hefyd wedi penderfynu bod angen i Gynghorau, ar gyfer 2012/13, ddarparu tâl mwyaf o £403 y mis i aelodau etholedig ac aelodau cyfetholedig awdurdodau sy'n mynd i gostau angenrheidiol ar gyfer gofalu am blant neu ddibynyddion tra'n ymgymryd â'u dyletswyddau. Gellir ond ad-dalu pan gyflwynir derbynebau.

2.6 Mae'r Panel hefyd wedi ystyried amser teithio a threuliau cynhaliaeth. Nid oes newid yn y cyfraddau milltiredd y gellir eu hawlio am deithio. Nodir y rhain isod:

45c y filltir hyd at 10,000 milltir
25c y filltir dros 10,000 milltir
5c fesul teithiwr fesul milltir – atodiad teithiwr
24c fesul milltir - beic modur preifat
20c y filltir - beic

2.7 Bydd ffurfiau teithio eraill ond yn cael eu had-dalu o gyflwyno derbynneb ddilys. Dylai'r aelodau ddewis y dull teithio mwyaf cost effeithiol bob amser.

2.8 Rhaid i'r awdurdod gadw a chyhoeddi atodlen flynyddol o gydnabyddiaeth ariannol i aelodau erbyn 31ain Gorffennaf 2012 fan bellaf ac anfon copi at y Panel.

2.9 Rhaid i'r awdurdod wneud trefniadau i gyhoeddi yn ei ardal y cyfanswm a dalwyd ganddo i bob aelod ac aelod cyfetholedig mewn perthynas â chyflog, ffïoedd a chydnabyddiaeth ariannol yn ystod y flwyddyn 2012/13 erbyn 30ain Medi 2013 fan bellaf.

2.10 Caiff aelod, os dymuna wneud hynny, hepgor unrhyw ran neu'r cyfan o'r gydnabyddiaeth ariannol.

## 3 ARGYMHELLIAD

3.1 Bod yr aelodau'n cydnabod darpariaeth Adroddiad Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer 2012/13.